



DEWCH I NI  
GERDDED I'R  
YSGOL



## Her Hydref WOW Deg Uchaf

Annwyl riant/gofalwr,

Fel y gwyddoch, mae ein hysgol yn cymryd rhan yn y prosiect Living Streets WOW – yr her cerdded i'r ysgol - sy'n annog plant i gerdded i'r ysgol a mwynhau'r manteision a ddaw drwy cerdded.

Mae WOW yn fenter dan arweiniad disgyblion lle mae plant yn hunan-adrodd sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydynt yn teithio'n llesol (cerdded/olwyno, beicio, sgwtera neu parcio a cherdded) unwaith yr wythnos am fis, maent yn cael eu gwobrwyo â bathodyn.

Tymor yma, rydym hefyd yn cymryd rhan yn yr **her gwanwyn #WOWDegUchaf**. Y mwyaf o ddisgyblion sy'n cerdded/olwyno, beicio, sgwtera neu Parcio a Cherdded i'r ysgol **drwy gydol mis Hydref** y gorau yw ein siawns o fod ar dop y byrddau arweinwyr lleol a chenedlaethol. Felly, y neges yw, gadewch i ni deithio'n llesol i'r ysgol ym mis Hydref eleni!

### Beth yw'r manteision o gerdded i'r ysgol?

Mae cerdded i'r ysgol yn helpu i blant deimlo'n mwy hapus a iach, ac maent yn cyrraedd yr ysgol wedi'i hadnewyddu ac yn barod i ddysgu. Mae mwy o deuluoedd yn cerdded yn golygu llai o geir ar y ffordd yn ystod cyfnod yr ysgol, gan helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gathau'r ysgol.

### Beth os na allwch gerdded i'r ysgol?

Os ydych chi'n byw yn rhy bell neu os nad oes gennych amser i gerdded yr holl ffordd, gallwch barcio a cherdded i helpu'ch plentyn i ennill ei fathodyn WOW a'n helpu i symud i fyny'r bwrdd arweinwyr. Parciwch o leiaf 10 munud i ffwrdd o'r ysgol a cherddwch / olwyno gweddill y ffordd.

Lle nad yw cerdded i'r ysgol yn opsiwn, mae ein tîm ysgolion yn gweithio gyda staff yr ysgol, gan gynnwys SENCO, i sefydlu fersiwn o WOW sy'n gweithio orau ar gyfer anghenion yr ysgol.

Er mwyn sicrhau cynwysoldeb, rydym yn cynnig amrywiaeth o awgrymiadau i ddisgyblion nad ydynt yn gallu teithio'n llesol i'r ysgol, mae'r rhain yn cynnwys bod yn Llysgenhad WOW, arwain cynullïadau, creu hysbysfyrddau teithio llesol, a gweithgareddau eraill o fewn y diwrnod ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am addasrwydd WOW mewn ysgolion SEND neu os oes gennych awgrymiadau ar sut y gallwn wella, byddem wrth ein bodd yn clywed eich meddyliau. E-bostiwch [walktoschool@livingstreets.org.uk](mailto:walktoschool@livingstreets.org.uk)

### A wnewch chi ymuno â ni a helpu ein hysgol i frig y byrddau arweinwyr lleol a chenedlaethol?

Mae miloedd o ddisgyblion ledled y DU yn mwynhau manteision cerdded i'r ysgol diolch i holl ymgyrchoedd cerdded i'r ysgol Living Streets.

Peidiwch ag anghofio tagio **@livingstreets** a defnyddio'r hashtag **#WOWDegUchaf** yn ystod mis Hydref ar eich taith cerdded i'r ysgol.

**Gadewch i ni barhau i gyfnewid rhediadau ysgol ar gyfer teithiau cerdded ysgol!**